

**Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Cymuned Llandybïe
Llandybïe Community Council's Welsh Language Scheme**

Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Cymuned Llandybïe

Llandybïe Community Council's Welsh Language Scheme

**Paratowyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993
mewn cydweithrediad â Menter Bro Dinefwr a Bwrdd yr Iaith Gymraeg**

**Prepared in accordance with the Welsh Language Act 1993
in conjunction with Menter Bro Dinefwr and the Welsh Language Board**

**Derbyniodd y cynllun hwn gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg
dan Adran 14(1) y Ddeddf ar y 1af Hydref, 2003**

**This scheme received the approval of the Welsh Language Board
under Section 14 (1) of the Act on 1st October, 2003**

Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Cymuned Llandybïe
Llandybïe Community Council's Welsh Language Scheme

CYNNWYS

1. Datganiad Agoriadol	
2. Cyflwyniad i Gynllun Iaith Gymraeg Cyngor Cymuned Llandybïe	2
3. Cynllunio a chyflwyno gwasanaethau	3
3.1 Polisiau a mentrau newydd	
3.2 Safon ansawdd	
4. Ymdrin â siaradwyr Cymraeg	4
4.1 Gohebiaeth ysgrifenedig	
4.2 Galwadau ffôn	
4.3 Cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan y Cyngor neu ar ei ran	
4.4 Cyfarfodydd y Cyngor	
4.5 Cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd	
4.6 Materion eraill yn ymwneud â'r cyhoedd	
5. Delwedd gyhoeddus y Cyngor	5
5.1 Hunaniaeth gorfforaethol	
5.2 Arwyddion	
5.3 Cyhoeddi ac argraffu deunydd	
5.4 Dylatswyddau statudol a hyrwyddol	
5.5 Gwasanaethau gan gyrff eraill	
6. Gweithredu a Monitro'r Cynllun	6
6.1 Staffio	
6.2 Trefniadau gweinyddol	
6.3 Gwasanaeth cyfieithu	
6.4 Monitro	
6.5 Cyhoeddusrwydd	
6.6 Cysylltu â'r Cyngor	

Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Cymuned Llandybïe
Llandybïe Community Council's Welsh Language Scheme

1. Datganiad Agoriadol

Mae Cyngor Cymuned Llandybïe wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn datgan sut y bydd y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor hon wrth ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd yn ardal Cymuned Llandybïe ac yng Nghymru.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod aelodau o'r cyhoedd yn medru datgan eu barn a'u hanghenion yn well yn yr iaith y maent fwyaf cartrefol yn ei defnyddio, a bod rhoi iddynt hawl i ddefnyddio iaith o'u dewis hwy yn fater o ymarfer da yn hytrach na chonsesiwn ac y gallai gwahardd y dewis hwn osod aelodau o'r cyhoedd dan anfantais. Bydd y Cyngor felly yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd ddewis ym mha iaith y dymunant drafod materion gyda'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn anelu at

roi cyfle i bawb sy'n derbyn neu'n ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor neu yn cyfrannu i'r broses ddemocrataidd wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl ei ddymuniad personol

hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned

2. Cyflwyniad i Gyngor Cymuned Llandybïe

Mae prif ddyletswyddau'r Cyngor yn cynnwys:

cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus
ystyried materion cynllunio
awgrymu gwelliannau yn ymwneud â phriffyrdd
cydweithio gyda'r heddlu i ddiogelu'r gymuned
cyfrifoldeb am oleuadau stryd
rhoi cymorth ariannol i nifer o fudiadau gwirfoddol ac elusennau
gofalu am seddi a byrddau arddangos cyhoeddus
penodi cynrychiolwyr ar nifer o gyrff lleol ac allanol

Mae nifer o grwpiau cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol yn chwarae rhan flaenllaw ym mywyd y gymuned. Mae'r Cyngor yn gweithio i hyrwyddo datblygiadau cymunedol a gweithgareddau cymdeithasol ac yn ymateb i'r galw lleol am wella safon byw yn yr ardal.

Mae gan y Cyngor 19 aelod etholedig; mae'r Clerc yn gweithio o'r swyddfa ac o'i cartref. Mae'r rhan fwyaf o'r aelodau yn ddwyieithog ac mae'r Clerc yn gweinyddu yn y ddwy iaith.

Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Cymuned Llandybïe
Llandybïe Community Council's Welsh Language Scheme

Y Cyngor Cymuned yw'r haen llywodraeth leol sydd yn gweithredu agosaf at bobl ar lawr gwlad ac er bod ganddo bwerau cymharol gyfyngedig mae'n gorff pwysig sydd yn gweithio i gynnal a gwella safon byw trigolion yr ardal.

Mae Cyngor Cymuned Llandybïe yn gwasanaethu ardal o ryw 42,000 hectarau yn ne-ddwyrain Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys pentrefi Llandybïe, Derwydd, Blaenau, Caerbryn, Pen-y-groes, Cwmgwili, Capel Hendre, Saron, Pen-y-banc, Bonllwyn, Heol-ddu a rhan o Landyfân.

Yn ôl ffigurau cyfrifiad 2001 mae rhyw 66% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

Mae'r pum Cynghorwr Sir sy'n cynrychioli'r pedair Ward o fewn ardal y Gymuned yn dod i gyfarfodydd y Cyngor yn rheolaidd.

3. Cynllunio a chyflwyno gwasanaethau

3.1 Polisiâu a mentrau newydd

Wrth gyflwyno polisiâu newydd bydd y Cyngor:

yn asesu'r goblygiadau ieithyddol wrth eu llunio gan sicrhau cysondeb â'r Cynllun Iaith Gymraeg

yn sicrhau ei fod yn hwyluso ac yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg gan weithredu egwyddor cyfartaledd bob cyfle

yn ymgynghori â'r Cynulliad ymlaen llaww ynglŷn ag unrhyw fwriadau neu gynigion a fydd yn effeithio ar y cynllun neu ar gynlluniau unrhyw gorff arall. Ni newidir y cynllun heb gytundeb y Cynulliad

yn sicrhau bod y sawl a wnelo â llunio polisiâu yn ymwybodol o'r cynllun ac o gyfrifoldebau'r Cyngor dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

yn sicrhau bod y mesurau a gynhwysir yn y cynllun mewn grym ar gyfer unrhyw bolisiâu a mentrau newydd a weithred

Pan ymgynhorir a'r cyngor ar:

geisiadau cynllunio, bydd y Cyngor yn annog ymgeiswyr i godi arwyddion yn Gymraeg neu dwyieithog ar safleoedd megis swyddfeydd, busnesau a siopao ac archfarchnadoedd drwy gyfeirio at natur ieithyddol yr ardal.

Ynglŷn ag enwau strydoedd, datblygiadau ac ystadau Newydd bydd y Cyngor yn cefnogi defnyddio enwau Cymraeg neu dwyieithog.

Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Cymuned Llandybïe
Llandybïe Community Council's Welsh Language Scheme

Lle mai dim ond man wahaniaeth sydd rhwng y sillafiad Cymraeg a'r Saesneg o enw lle, stryd, ward neu gymuned bydd y Cyngor yn cefnogi mabwysiadu'r ffurf Gymraeg.

3.2 Safonau ansawdd

Bydd y gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg a'r Saesneg o'r un safon uchel ac yr un mor brydlon.

4. Ymdrin â siaradwyr Cymraeg

4.1 Gohebiaeth ysgrifenedig

Bydd y Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Ni fydd gohebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ei hun yn achosi unrhyw oedi.

Bydd pob llythyr Cymraeg yn derbyn ateb Cymraeg. Bydd pob gohebiaeth yn dilyn trafodaeth yn y Gymraeg dros y ffôn neu wyneb yn wyneb neu'n dilyn cyfarfod lle sefydlwyd mai Cymraeg yw dewis iaith yr unigolyn (er nad Cymraeg oedd iaith y cyfarfod o anghenraid) yn y Gymraeg.

Dechreuir pob gohebiaeth ag aelod o'r cyhoedd yn ei ddewis iaith lle bo hynny yn hysbys. Os nad yw'n hysbys, bydd yr ohebiaeth ddechreuol oddi wrth y Cyngor yn ddwyieithog.

Bydd pob cylchlythyr neu lythyrau arferol i'r cyhoedd yn ddwyieithog.

Bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i gyfieithu gohebiaeth yn ôl y galw er mwyn ymateb yn ddi-oed i ohebiaeth yn yr iaith wreiddiol.

Bydd Clerc y Cyngor yn gyfrifol am gyfieithu pob gohebiaeth neu am drefnu iddi gael ei chyfieithu.

Bydd papur pennawd swyddogol y Cyngor yn cynnwys datganiadau yn y ddwy iaith a fydd yn ei gwneud yn glir y croesewir gohebiaeth yn y naill iaith neu'r llall.

4.2 Galwadau ffôn

Bydd y Clerc yn cyfarch yn ddwyieithog ac yn croesawu galwadau ffôn i'r swyddfa yn y Gymraeg neu yn Saesneg.

Pan fydd swydd y Clerc i'w hysbysebu, bydd yr hysbyseb yn cadarnhau bod sgiliau dwyieithog yn hanfodol fel y gall y Cyngor gynnig gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd.

4.3 Cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan y Cyngor neu ar ei ran

Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Cymuned Llandybïe Llandybïe Community Council's Welsh Language Scheme

Croesewir cyfraniadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg yng nghyfarydodydd cyhoeddus y Cyngor. Gwneir hyn yn glir yn y cyhoeddiadau a'r hysbysiadau am y cyfarfodydd.

Bydd unrhyw gyfarfod cyhoeddus a gynullir I drafod y Gymraeg, addysg Gymraeg, treth y Cyngor neu wybodaeth am etholiad/isetholiad lleol yn ddwyieithog.

Trefnir cyfieithydd ym mhob cyfarfod cyhoeddus. Darperir cyfleusterau cyfieithu ar gyfer y di-Gymraeg yn ôl y galw ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan y Cyngor neu ar ei ran. Bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig megis taflenni a ddefnyddir mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog.

Os yw'n hysbys ar gychwyn y cyfarfod bod pawb sy'n bresennol yn siarad Cymraeg, cynhelir y cyfarfod yn Gymraeg.

Wrth gychwyn y cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn dwyn sylw mynychwyr at wasanaeth cyfieithu ar y pryd pan fo ar gael.

4.4 Cyfarfodydd y Cyngor

Bydd pob cyhoeddusrwydd ac agenda ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor yn ddwyieithog. Bydd cyfarfodydd y Cyngor yn ddwyieithog a phan geir cyfraniad yn y Gymraeg, bydd y Cadeirydd neu'r Clerc yn cyfieithu i'r Saesneg os bydd angen. Os yw'r Cadeirydd yn ddi-Gymraeg bydd y Cyngor yn penodi aelod arall i gyfieithu neu bydd yn gofalu bod cyfleusterau cyfieithu ar gael. Mae'r Cyngor yn derbyn mai'r ffordd fwyaf effeithiol o gynnal cyfarfod dwyieithog yw defnyddio offer cyfieithu ar y pryd.

Bydd cofnodion holl gyfarfodydd y Cyngor yn ddwyieithog.

Bydd y Cyngor yn ymateb i unrhyw alwadau am wybodaeth ynglŷn â'r cofnodion neu rannau ohonynt yn newis iaith yr unigolyn.

4.5 Cyfarfodydd wyneb yn wyneb a'r cyhoedd

Bydd y Cyngor yn croesawu cyfarfodydd neu gyfathrebu gyda'r cyhoedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg a bydd y Cyngor yn gofalu bod trefniadau yn cael eu gwneud i alluogi unrhyw aelod o'r cyhoedd i drafod pethau yn ei ddewis iaith.

Pan nad yw'r Clerc yn ddwyieithog, ond o leiaf rhai o'r aelodau yn ddwyieithog ac yn barod i gyfarfod ag aelod o'r cyhoedd sydd eisiau trafod yn y Gymraeg, bydd y Cyngor yn croesawu cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg, a bydd y Clerc yn gofalu fod trefniadau yn cael eu gwneud i alluogi unrhye aelod o'r cyhoedd sydd eisiau trafod materion yn y Gmraeg i wneud hynny gydag aelod dwyieithog o'r Cyngor.

4.6 Unrhyw drafodaeth arall gyda'r cyhoedd

Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Cymuned Llandybïe
Llandybïe Community Council's Welsh Language Scheme

Os bydd y Cyngor yn cysylltu â'r cyhoedd trwy dechnoleg fodern megis cyfrifiadur, y rhyngrwyd neu e-bost, bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i ofalu bod y cyfryngau hyn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg

5. Wyneb cyhoeddus y Cyngor

5.1 Hunaniaeth gorfforaethol

Enw'r Cyngor yw Cyngor Cymuned Llandybïe - Llandybïe Community Council.

Mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol. Bydd enw a chyfeiriad y Cyngor yn ymddangos yn ddwyieithog ar y papur pennawd swyddogol, papur ffacs, papur cyfarch a'r rhyngrwyd os yn berthnasol ynghyd ag unrhyw ddeunydd hyrwyddo arall.

5.2 Arwyddion

Bydd pob arwydd gwybodaeth a godir am y tro cyntaf neu yn lle hen arwydd ar eiddo'r Cyngor yn ddwyieithog, yn ogystal ag unrhyw arwyddion gwybodaeth gyhoeddus eraill y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt.

Bydd y ddwy iaith yn ymddangos gyda'i gilydd a'r fersiwn Gymraeg yn ymddangos gyntaf. Bydd maint, safon, eglurdeb ac amlygrwydd y print yn gyfartal yn y ddwy iaith.

5.3 Cyhoeddi ac argraffu deunydd

Bydd pob cyhoeddiad ar gyfer y cyhoedd megis dogfennau, deunydd esboniadol neu ffurflenni yn ddwyieithog, a fersiynau'r ddwy iaith yn gwneud un ddogfen.

Os cyhoeddir fersiwn Gymraeg a Saesneg ar wahân byddant yn ymddangos ar yr un pryd, yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd a byddant yr un mor hawdd eu cael.

Bydd pob datganiad i'r wasg yn ddwyieithog; bydd yn cynnwys enw cyswllt ar gyfer cyfweiliadau trwy gyfrwng y Gymraeg a bydd yn targedu papurau bro misol penodol.

Bydd pob hysbysrwydd a chyhoeddusrwydd yn ddwyieithog.

Bydd hysbysebion a chyhoeddiadau'r Cyngor a fydd yn ymddangos yn y wasg, ar hysbysfwrdd neu unrhyw gyfrwng arall yn ddwyieithog.

Bydd hysbysebion am swyddi yn ymddangos yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg / dwyieithog ac yn y Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg gyda nodyn yn y Saesneg os oes angen.

5.4 Swyddogaethau statudol a hyrwyddol

Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Cymuned Llandybïe
Llandybïe Community Council's Welsh Language Scheme

Pan fydd y Cyngor yn derbyn ceisiadau am gyfraniadau ariannol tuag at weithgareddau lleol bydd yn gofyn i ymgeiswyr ddisgrifio sut y bwriadant adlewyrchu natur ddwyieithog y gymuned yn y gweithgareddau y gofynnant am gefnogaeth ariannol ar eu cyfer.

Rhennir y grantiau yn unol â hynny ac arolygir cydymffurfiad â'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Pan ymgynghorir â'r Cyngor ynglyn ag enwi strydoedd, datblygiadau ac ystadau newydd, bydd y Cyngor yn cefnogi defnydd o enwau dwyieithog. Lle nad oes ond mân wahaniaethau rhwng y sillafiad Cymraeg a'r Saesneg mewn enwau lleoedd, strydoedd, wardiau, neu enwau cymunedol, bydd y Cyngor yn cefnogi mabwysiadu'r fersiwn Gymraeg.

5.5 Gwasanaethau gan bersonau eraill

Dylai unrhyw drefniadau a wneir gan y Cyngor i ddefnyddio trydydd person i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar ei ran gydymffurfio â gofynion y cynllun hwn. Bydd y Cyngor yn tanlinellu pa fesurau perthnasol o fewn y cynllun y bydd yn rhaid i'r trydydd person lynu wrthynt wrth gyflwyno tendr am waith o fewn yr amodau cytundeb.

Bydd yn ofynnol i'r trydydd person gadarnhau trwy lythyr ei fod wedi cydymffurfio ag amodau perthnasol y cynllun.

6. Gweithredu ac arolygu'r cynllun

6.1 Staffio

Mae Clerc y Cyngor yn ddwyieithog. Pan ddaw'r swydd yn wag bydd yr hysbyseb/ion am y swydd yn nodi bod sgiliau dwyieithog yn hanfodol.

6.2 Trefniadau gweinyddol

Cafodd y cynllun hwn gefnogaeth lawn y Cyngor a bydd y Clerc yn gyfrifol am weithredu'r cynllun yn ddyddiol o fewn y Cyngor.

6.3 Y Gwasanaeth Cyfieithu

Y Clerc fydd yn gyfrifol am anghenion cyfieithu ysgrifenedig y Cyngor a bydd hefyd yn gyfrifol am safon pob testun Cymraeg a gynhrychir.

Os nad yw'r Clerc yn medru cwblhau'r gwaith mewn pryd, bydd cyfieithydd allanol yn cael ei gyflogi.

Y Clerc fydd yn gyfrifol am drefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer holl anghenion y Cyngor fel bod angen. Bydd y gwasanaeth hwn ar gael ymhob cyfarfod

Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Cymuned Llandybïe
Llandybïe Community Council's Welsh Language Scheme

cyhoeddus a drefnir gan y Cyngor neu ar ei ran ac mewn unrhyw gyfarfod Cyngor arall fel y penderfynir gan y Cyngor.

6.4 Monitro'r cynllun

Y Clerc fydd â'r cyfrifoldeb am arolygu'r cynllun.

Bydd y Cyngor yn derbyn adroddiad blynyddol byr ar weithredu'r cynllun a fydd yn cael ei arddangos ar hysbysfyrddau'r Cyngor ac anfonir copi at y Cynulliad. Bydd y Cyngor yn gwahodd siaradwyr Cymraeg lleol i gynnig eu sylwadau ar y gwasanaeth a sut y gellir ei wella; byddant yn rhoi hysbysiad ar hysbysfyrddau'r Cyngor a llyfrgelloedd cyhoeddus gan ddatgan fod yr adroddiad ar gael i'w archwilio / darllen oddi wrth y Clerc.

Bydd yr Adroddiad yn ymwneud â phob agwedd ar y cynllun.

Bydd y Cyngor yn croesawu sylwadau trwy lythyr oddi wrth y cyhoedd ynglŷn â gwelliannau i unrhyw agwedd ar y cynllun.

6.5 Cyhoeddusrwydd

Bydd y Cyngor yn hysbysebu'r cynllun yn rheolaidd ar ei hysbysfyrddau.

6.6 Cysylltu â'r Cyngor

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau, cwynion neu awgrymiadau yn ymwneud â'r cynllun at y swyddogion a gyflogir gan y Cyngor. Gellir cysylltu â'r Clerc, Mr Stuart Griffith trwy ffonio 01269 853834

Adolygwyd gan y Pwyllgor Polisi ar 6ed Chwefror 2019 a'i gymerdwyo gan y Cyngor llawn ar 27ain Chwefror 2019.